Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Mesur y mynydd

# Gwneud yr hyn sy'n wirioneddol bwysig ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru: sut allwn ni wneud iddo ddigwydd gyda'n gilydd?

## ADRODDIAD Y RHEITHGOR DINASYDDION AR-LEIN



# Adroddiad y Rheithgor Dinasyddion Ar-lein ar Ofal Cymdeithasol

Drafftiwyd yr adroddiad hwn gan Rachel Iredale, Athro Cysylltiol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ym Mhrifysgol De Cymru a Katie Cooke, Rheolwr Prosiect *Mesur y Mynydd*, ar ran y Rheithgor, ac fe'i cymeradwywyd gan yr holl Reithwyr. Cwblhawyd yr adroddiad hwn ym mis Tachwedd 2020 a'i gyhoeddi gan Brifysgol De Cymru.



**ISBN: 978-1-909838-48-2**

Hawlfraint © Prifysgol De Cymru, 2020

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw, na'i drosglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull heb ganiatâd ysgrifenedig gan y cyhoeddwyr.

Mae Rachel Iredale a Katie Cooke wedi datgan eu hawl i gael eu hadnabod fel awduron y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1998.

Dylunio ac argraffu: Argraffu a Dylunio PDC 01443 482 677

# Cyflwyniad

Trefnwyd y Rheithgor Dinasyddion Ar-lein ar Ofal Cymdeithasol yng Nghymru gan brosiect *Mesur y Mynydd*. Mae *Mesur y Mynydd* yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi rhedeg ers 2018. Wedi'i chynnal gan Brifysgol De Cymru, bu sawl cam i *Mesur y Mynydd* sydd wedi arwain at y Rheithgor Dinasyddion Ar-lein hwn ym mis Medi 2020.

Mae'r prosiect yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i werthuso *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* ac mae'n canolbwyntio ar brofiadau gofalwyr di-dâl a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae dwy elfen wahanol i *Mesur y Mynydd*: elfen casglu storïau a Rheithgor Dinasyddion. Cyflwynodd y prosiect ei Reithgor Dinasyddion cyntaf yn 2018 fel digwyddiad mewn person ac adeiladodd y Rheithgor Dinasyddion Ar-lein 2020 hwn ar y gwaith hwnnw.

## Sut y dewiswyd y cwestiwn?

**Gwneud yr hyn sy'n wirioneddol bwysig ym maes gofal cymdeithasol: sut allwn ni wneud iddo ddigwydd gyda'n gilydd?**

Canolbwyntiodd Rheithgor Dinasyddion 2018 ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig ym maes gofal cymdeithasol, thema a ddaeth i'r amlwg o'r storïau a gasglwyd yn y cam hwnnw o'r prosiect. Symudodd casglu storïau y drafodaeth honno ymlaen wedi hynny, gan edrych yn agosach ar yr hyn sy'n cyfrannu at brofiadau cadarnhaol neu negyddol. Llywiodd y themâu hyn, ar y cyd â'r awydd i symud ymlaen â'r gwaith a ddechreuwyd gan Reithgor Dinasyddion 2018, ddatblygiad y Grŵp Llywio prosiect o'r cwestiwn. Roedd y cwestiwn diwedd un a oedd yn canolbwyntio ar gydgynhyrchu a sut y gellir cyflwyno'r hyn sy'n bwysig ym maes gofal cymdeithasol.

## Pwy yw'r Rheithwyr?




**Rhes uchaf o'r chwith i'r dde:**
Andy • Peter • Ffion
Josh • Victoria

**Rhes ganol o'r chwith i'r dde:**
Moawia • Jo • Rob
Clare • Nina

**Rhes waelod o'r chwith i'r dde:**
Cyril • Bethany • Gyles
Tafsila

# Sut dewiswyd y Rheithwyr?

Agorwyd cofrestru ar gyfer bod yn Rheithiwr ym mis Chwefror 2020, a'i hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy bartneriaid y prosiect.

Roedd gwybodaeth ar gael ar y wefan (**www.mym.cymru**) ac fe'i darparwyd hefyd ar ffurf Hawdd ei Ddeall. I gofrestru eu diddordeb mewn cymryd rhan, cwblhaodd unigolion ffurflen fer a ofynnodd am fanylion cyswllt a rhywfaint o wybodaeth fer. Caeodd y cofrestriadau ar 1 Gorffennaf gyda 125 o bobl wedi'u cofrestru.

Defnyddiwyd data demograffig o ffynonellau swyddogol, gan gynnwys statswales.gov.wales, i greu proffil o'r boblogaeth yng Nghymru ac roedd y newidynnau hyn yn berthnasol i'r bobl yr oedd eu hangen i greu Rheithgor cynrychioliadol. Defnyddiodd dewis yn erbyn y newidynnau ddull dethol ar hap gydag 16 o bobl yn cael eu dewis i ddechrau gyda dau ohonynt yn rhoi'r gorau iddi wedi hynny oherwydd ymrwymiadau personol neu waith.

| Newidyn | Gwybodaeth Monitro | Poblogaeth Cymru % | Nifer oedd ei angen | Nifer a ddewiswyd | Nifer terfynol |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw | Gwryw | 49% | 7 | 8 | 7 |
| | Benyw | 51% | 8 | 8 | 7 |
| Oedran | 16-24 | 15% | 2 | 3 | 3 |
| | 25-44 | 30% | 5 | 5 | 4 |
| | 45-64 | 32% | 5 | 6 | 5 |
| | 65+ | 22% | 3 | 2 | 2 |
| Ethnigrwydd | Gwyn Prydeinig | 94% | 14 | 11 | 9 |
| | Pob gwyn arall | 6% | 1 | 0 | 0 |
| | Cymysg | | | 2 | 2 |
| | Asiaidd | | | 2 | 2 |
| | Du | | | 1 | 1 |
| | Arall | | | 0 | 0 |
| Cyrhaeddiad addysgol uchaf | Dim cymwysterau | 8% | 1 | 1 | 1 |
| | Lefel 2 neu is (TGAU) | 32% | 5 | 6 | 5 |
| | Lefel 3 (Safon Uwch) | 21% | 3 | 1 | 0 |
| | Lefelau 4 – 6 (Coleg/Prifysgol) | 28% | 4 | 4 | 4 |
| | Lefel 7 & 8 (Ôl-radd) | 11% | 2 | 4 | 4 |
| Siaradwr Cymraeg | Yn gallu siarad Cymraeg | 19% | 3 | 2 | 2 |
| Anabl | Cyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd | 26% | 4 | 5 | 5 |
| Statws cyflogaeth | Cyflogedig | 72% | 9 | 10 | 9 |
| | Ddim yn gweithio | 26% | 4 | 6 | 5 |
| Cyfrifoldebau gofalu | 1+ awr yr wythnos | 12% | 2 | 5 | 4 |

## Symud Ar-lein

Ym mis Mawrth 2020 aeth y DU dan gyfyngiadau symud cenedlaethol oherwydd pandemig COVID-19, a chydag ansicrwydd ynghylch pryd y byddai hyn yn dod i ben, penderfynwyd newid y Rheithgor Dinasyddion o fod yn ddigwyddiad mewn person i fod yn ddigwyddiad ar-lein. Er mwyn cefnogi Rheithwyr i gymryd rhan, ac i leihau gwahaniaethau mewn mynediad at dechnoleg, rhoddwyd nifer o fesurau ar waith a oedd yn cynnwys mynediad at dechnoleg a chymorth technolegol. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ar-lein gyda phob Rheithiwr i sicrhau isafswm llythrennedd digidol cyn i'r digwyddiad gychwyn.

## Y Rhaglen

Datblygwyd y rhaglen ar gyfer y Rheithgor Dinasyddion Ar-lein i adeiladu gwybodaeth y Rheithwyr bob dydd gyda thystion a nodwyd gan aelodau'r Grŵp Llywio, neu a oedd yn adnabyddus am faes arbenigedd penodol. Gan ddefnyddio adborth o Reithgor Dinasyddion 2018, penderfynwyd caniatáu pedwar diwrnod ar gyfer y sesiynau agored a diwrnod llawn ar gyfer gwneud argymhellion.

Clywodd y Rheithwyr gan gyfanswm o 22 tyst. Fe'u briffiwyd yn drylwyr ymlaen llaw a chyflwynwyd bywgraffiad byr a chrynodeb o'u prif bwyntiau ar gyfer y Rheithwyr. Dewisodd rhai tystion ddarparu sleidiau neu fideos i gefnogi'r hyn roeddent yn ei rannu. Dyrannwyd amser ar ddechrau a diwedd pob diwrnod i'r Rheithwyr fyfyrio'n drylwyr ar y dystiolaeth gyda chefnogaeth yr hwylusydd. Gweler Atodiad 1 am y rhaglen lawn.

## Paratoi

Cynhaliwyd sesiwn baratoi gyda'r Rheithwyr ar fore dydd Sadwrn 12fed Medi 2020. Galluogodd y sesiwn hon i'r dechnoleg gael ei phrofi, gan roi cyfle i'r Rheithwyr ddechrau dod i adnabod ei gilydd, yn ogystal â'r hwylusydd, i sefydlu rheolau sylfaenol ar gyfer y digwyddiad, ac roedd yn cynnwys sesiwn ymarfer ar gyfer tystion.

## Y Rheithgor Dinasyddion Ar-lein

Cynhaliwyd sesiynau Rheithgor Dinasyddion ar-lein rhwng 21ain a 25ain Medi 2020 gan ddefnyddio Google Meet. Ffrydiwyd yr holl sesiynau tystion i sianel YouTube y prosiect gan ddefnyddio meddalwedd Open Broadcast, a defnyddiodd y Rheithwyr WhatsApp i gyfathrebu fel grŵp ac fel ffordd effeithlon i gyfleu eu cwestiynau i'r hwylusydd a Rheithwyr eraill.

Defnyddiodd yr hwylusydd hefyd Meeting Sphere gyda'r Rheithwyr fel offeryn i ddal eu meddyliau a'u syniadau wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen. Defnyddiwyd yr un teclyn hwn i ddal argymhellion y Rheithwyr ar y diwrnod olaf.

## Hwyluso

Penododd y Grŵp Llywio hwylusydd arbenigol allanol i arwain y Rheithwyr trwy'r broses gyfan ac i sicrhau annibyniaeth. Ni chymerodd y tîm prosiect *Mesur y Mynydd* unrhyw ran yn y trafodaethau.

# Yr Argymhellion

Gwnaeth y Rheithwyr 16 o argymhellion ar draws pedwar maes craidd – polisi, ymarfer, pobl a phroses.

Gyda'i gilydd, mae'r argymhellion hyn yn tynnu sylw at yr angen i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth a gofalwyr di-dâl. Maent yn canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu, meithrin perthnasoedd a rhannu gwybodaeth, gan sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol gofal a chymorth yng Nghymru.

Mae'r argymhellion yn gymysgedd o'r rhai sydd angen cymeradwyaeth genedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a'r rhai sy'n gofyn am ddealltwriaeth leol a'u hymgorffori cyn y gellid eu gweithredu'n llawn. Maent yn gam cadarnhaol tuag at ddatblygu a darparu ymarfer rhagorol ym mhob agwedd ar ofal cymdeithasol ledled Cymru.




## Polisi

Gwnaeth y Rheithwyr dri argymhelliad yn ymwneud â pholisi; argymhellion cenedlaethol yw'r rhain sy'n cryfhau sylfaen gofal cymdeithasol a gwasanaethau chymorth, a thrwy godi ymwybyddiaeth byddai'n gwella bywydau pobl ledled Cymru.

### 1 Comisiynydd Pobl Anabl

Rydym yn argymell i Lywodraeth Cymru eu bod yn penodi Comisiynydd Pobl Anabl yn 2021.

### 2 Tasglu Incwm Sylfaenol Cenedlaethol

Rydym yn argymell i Lywodraeth Cymru eu bod yn sefydlu Tasglu i archwilio ffyrdd o ddarparu Incwm Sylfaenol Cyffredinol i ddinasyddion Cymru, a'i fod yn adrodd yn ôl i Senedd Cymru a phobl Cymru ar ei ganfyddiadau yn 2021.

### 3 Ymgyrch Ymwybyddiaeth Gofal Cymdeithasol

Rydym yn argymell bod ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus genedlaethol ynghylch yr hawliau sydd gan bobl yng Nghymru i ofal cymdeithasol. Ochr yn ochr â hyn, dylai pob awdurdod lleol gynnal ymgyrch leol, sy'n briodol i'w hardal sy'n defnyddio iaith glir a syml i wneud pobl yn ymwybodol o'u hawliau a'r cymorth sydd ar gael iddynt yn eu hardal.

# Ymarfer

Gwnaeth y Rheithwyr bum argymhelliad mewn perthynas ag ymarfer gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau cymorth. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar weithio gyda phobl sy'n cael eu cefnogi, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu i ddiwallu eu hanghenion.

## 4 Ailddiffinio Gofal Seibiant

Rydym yn argymell y dylid ailddiffinio a chyd-gynhyrchu gofal seibiant, fel bod yr arfer o ddarparu seibiant yn cael ei normaleiddio a'i fod yn ymwneud â darparu cyfleoedd hyblyg teilwredig ar gyfer gofalwyr a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

## 5 Eiriolaeth Annibynnol

Rydym yn argymell bod gwasanaethau eiriolaeth yn derbyn mwy o arian i sicrhau bod safonau cyflenwi uchel yn cael eu cyrraedd, bod mwy o bobl yn cael eu cefnogi ac y darperir ystod fwy o wasanaethau mewn modd annibynnol, a ddylai hefyd gynnwys eiriolaeth gyfreithiol a thechnegol.

## 6 Asesiadau Cyson

Rydym yn argymell datblygu dull cyson, canolog ar gyfer asesiadau ledled Cymru. Dylai asesiadau gael eu safoni ond dylid canolbwyntio ar ddulliau lleol o ddiwallu angen, ac ystyried anghenion penodol ac unigryw nifer o ardaloedd gwledig ac ynysig gwledig.

## 7 Hyfforddiant a gyd-gynhyrchwyd

Rydym yn argymell bod yr holl hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarferwyr gofal cymdeithasol yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda gofalwyr di-dâl a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a bod tystiolaeth o hyn yn flynyddol gan y rhai sy'n cyflogi staff o'r fath.

## 8 Gwybodaeth

Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn dangos yn flynyddol bod eu gwybodaeth yn hawdd ei deall, yn dryloyw, yn hygyrch, ac yn hyrwyddo prosiectau enghreifftiol yn eu hardal.




**5 o argymhellion** mewn perthynas ag ymarfer **gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau cymorth**

# Pobl

Gwnaethpwyd pedwar argymhelliad gan y Rheithwyr sy'n ymwneud yn benodol â phobl. Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar y cyfoeth o brofiad a gwybodaeth y gall unigolion a chymunedau eu cynnig i ddatblygu a darparu gwasanaethau, ac ymgorffori'r wybodaeth hon ledled y sector gofal a chymorth.

## 9 Gofalwyr

Rydym yn argymell y dylid ceisio a gwerthfawrogi barn gofalwyr di-dâl ar draws gofal cymdeithasol a'r GIG, a bod sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos sut mae'r rhain yn cael eu dwyn i mewn i brosesau gwneud penderfyniadau.

## 10 Llysgenhadon Profiad Byw

Rydym yn argymell bod pobl sydd â phrofiad byw o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn rhannu'r profiad hwnnw ar baneli, trwy hyfforddiant ar y cyd a thrwy waith swyddfa’r Comisiynydd Pobl Anabl newydd.

## 11 Rhwydweithiau Cymorth


Rydym yn argymell i Lywodraeth Cymru eu bod yn darparu cymorth parhaus i sefydliadau trydydd sector i greu a chynnal rhwydweithiau cymorth lleol i bobl, yn enwedig y rhai sy'n galluogi cymorth cymheiriaid ac eiriolaeth, gan roi sylw arbennig i ardaloedd gwledig ac ynysig.

## 12 Gwell Cynrychiolaeth

Rydym yn argymell y dylid gorfodi cynrychiolaeth sy'n fwy amrywiol o fewn gofal cymdeithasol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**4 o argymhellion**
sy'n ymwneud yn **benodol â phobl**







## Proses

Mae pedwar o'r argymhellion a wnaed gan y Rheithwyr yn ymwneud â phrosesau sy'n sail i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth. Nododd Rheithwyr y diffyg cydraddoldeb rhwng gofal cymdeithasol a'r GIG a'r gwrthdaro a all ddeillio o hyn.

Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar atal, perthnasoedd, gwerthoedd craidd ac ymgorffori ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.

### 13 Atal

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer ymyrraeth gynnar, yn enwedig ar gyfer arfer da ac arfer sefydledig sy'n cefnogi canlyniadau gwell, ac yn dangos sut y bydd y cyllid hwn yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

### 14 Partneriaeth

Rydym yn argymell bod gwasanaethau cymdeithasol yn dangos sut maen nhw'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a pha fuddion a gynigir, drwy'r cydweithredu hwnnw, i'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.

### 15 Proses Cwynion Agored


Rydym yn argymell a bod yr holl brosesau cwynion yr un mor hawdd eu deall, yn dryloyw ac yn hygyrch.

### 16 Taliadau Uniongyrchol

Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn darparu data ar nifer y bobl sy'n gymwys i dderbyn taliadau uniongyrchol yn eu hardal a gwybodaeth am pam nad ydyn nhw'n cyhoeddi pecynnau taliadau uniongyrchol ar gyfer pobl gymwys sydd angen cymorth.

Yn olaf, ar y cyd â'r argymhellion hyn, daeth y Rheithwyr i'r casgliad, er bod D*eddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn cynnwys yr holl elfennau i hwyluso system gofal cymdeithasol gwych, nid yw Egwyddorion y Ddeddf yn hawdd i'w deall gan bobl gyffredin.

Felly, dylid gweithredu ‘ail-frandio’r’ Egwyddorion, a fynegir fel gwerthoedd craidd sy’n sail i ddarparu gofal cymdeithasol ***ac*** iechyd, fel eu bod wedi’u nodi a’u deall yn glir ar draws y ddau sector.



**4 o argymhellion** sy'n ymwneud **â phrosesau**



# Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru a fydd yn cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r argymhellion erbyn haf 2021.

Mae'r adroddiad ar gael ar **www.mym.cymru** ac wedi'i rannu â phartneriaid ledled Cymru.

Ar 4ydd Rhagfyr 2020, cynhaliwyd bwrdd crwn i drafod gwaith ac argymhellion y Rheithgor Dinasyddion. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, aelodau'r Grŵp Llywio a'r Rheithwyr. Gellir dod o hyd i gyfrif ysgrifenedig o'r digwyddiad hwn ar **www.mym.cymru**; mae'r adroddiad o Reithgor Dinasyddion 2018 a deunyddiau prosiect eraill ar gael hefyd.

Mae pob sesiwn tystion ar gael i'w gweld ar sianel YouTube y prosiect y gellir eu cyrchu trwy **www.mym.cymru** neu trwy chwilio am 'Measuring the Mountain' ar YouTube.

# Cydnabyddiaethau

Ni fyddai'r Rheithgor Dinasyddion wedi bod yn bosibl heb amser, ymroddiad a chyfraniadau meddylgar y Rheithwyr a'r tystion. Diolchwn iddynt am gyfranogi mor hael.

Hoffem ddiolch hefyd i bawb a gefnogodd y digwyddiad, a wyliodd y sesiynau a rhannu gwybodaeth am y Rheithgor Dinasyddion.

Diolch yn arbennig i Dafydd Thomas, Hwylusydd a Joseff Reed, Rheolwr Technegol a Chyfryngau Cymdeithasol.

Diolch i Lywodraeth Cymru am ariannu'r gwaith ac i bawb ar Grŵp Llywio *Mesur y Mynydd* am gefnogi a chyfrannu at y digwyddiad.

Neil Wooding • Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Rachel Iredale • Prifysgol De Cymru
Amber Powell • Gofalwyr Cymru
David Williams • Partneriaeth Gwent Fwyaf
Eve Parkinson • Cyngor Sir Fynwy
Faaiza Bashir • Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
Mark Llewellyn • Prifysgol De Cymru (sylwedydd)
Owen Evans • Plant yng Nghymru
Rich Williams • Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Roiyah Saltus • Prifysgol De Cymru
Ruth Dineen • Cydgynhyrchu Cymru
Sara Woollatt • Cymunedau Digidol Cymru
Sue Evans • Gofal Cymdeithasol Cymru
Trevor Palmer • GL100 ResponsABLE Assistance
Vin West • Grŵp Mynediad Arfon
Wayne Jepson • Iechyd Cyhoeddus Cymru
Katie Cooke • Mesur y Mynydd

# Atodiad A: Rhaglen Rheithgor Dinasyddion Ar-lein

## Dydd Llun 21 Medi

| | Gweledigaethau am y Dyfodol A Realiti Cyflwyno Gofal Cymdeithasol Yng Nghymru |
|---|---|
| 10.00yb-10.20yb | **Albert Heaney**, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru yn agor y Rheithgor Dinasyddion. |
| 10.20yb-11.00yb | **Gwenda Thomas**, yn trafod cefndir, sefydlu a dyhead Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). |
| 11.00yb-12.00yp | **Sarah Day**, Practice Solutions, **Jenny O'Hara Jakeway**, Credu ac **Ossie Stuart**, Ymgynghorydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn trafod gofal cymdeithasol a gweledigaethau ar gyfer y dyfodol. |
| 2.00yp -3.00yp | **Sue Evans**, Gofal Cymdeithasol Cymru ac **Eve Parkinson**, Gwasanaethau Oedolion, Sir Fynwy, yn trafod darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru. |

## Dydd Mawrth 22 Medi

| | Profiadau Gofalwyr Di-Dâl a Phobl sy'n Defnyddio Gwasanaethau Cymorth |
|---|---|
| 11.00yb-12.00yp | **D a K**, dau riant-ofalwr, yn trafod eu profiadau o fagu eu meibion. |
| 2.00yp-3.00yp | **S a H**, yn trafod eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau cymorth. |

## Dydd Mercher 23 Medi

| | Arfer Da Cyn ac Yn Ystod y Pandemig |
|---|---|
| 10.30yb-12.00yp | **Dave Horton**, ACE (Action in Caerau and Ely), **Nick French**, Innovate Trust a **Claire Sullivan**, NEWCIS yn trafod eu gwaith, yr egwyddorion sy'n sail iddo a sut maen nhw'n gwybod ei fod yn darparu cefnogaeth ragorol. |
| 2.00yp-3.00yp | **Sue Nicholson**, Mencap Cas-gwent ac **Amber Powell**, Gofalwyr Cymru yn trafod gwasanaethau a ddatblygwyd ganddynt mewn ymateb i'r pandemig. |

## Dydd Iau 24 Medi

| | Gwneud i Newid Ddigwydd |
|---|---|
| 10.30yb-12.00yp | **Aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent a'r Panel** dinasyddion yn trafod eu rôl ac yn sicrhau newid trwy brosiectau integredig. |
| 2.00yp-3.00yp | **Nick Andrews,** Prifysgol Abertawe a **Chris Bolton,** Cyfnewidfa Arfer Da yn Swyddfa Archwilio Cymru yn trafod eu gwaith a'u syniadau ar gyfer gwneud i newid ddigwydd. |
| 3.00yp-3.15yp | **Neil Wooding**, Cadeirydd Grŵp Llywio *Mesur y Mynydd*, yn cau trafodion cyhoeddus. |

# Cysylltwch â Ni

**Dr Rachel Iredale** | Athro Cyswllt
Cyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg
Prifysgol De Cymru | Campws Glyn-taf
Pontypridd | CF37 1DL
Ebost: **rachel.iredale@southwales.ac.uk**